
# Y Croeshoelio **Mathew 27: 27-37; Marc 15: 16-25; Luc 23: 36-24; Ioan 19: 16-27**

Gallwch lawrlwytho’r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae’r Cynllun Stori yma yn dangos be sy’n digwydd ym mhob rhan o’r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno’r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

| | Disgrifiad | Llun | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| | Mathew 27: 27-37; Marc 15: 16-25; Luc 23: 36-24; Ioan 19: 16-27 |  | |
| 1 | Roedd y milwyr Rhufeinig yn greulon tuag at Iesu. |  | |
| 2 | Cafodd ei chwipio. |  | |
| 3 | Dyma'r milwyr Rhufeinig yn rhoi clogyn porffor amdano a gosodwyd coron ddrain ar ei ben. Roedden nhw'n poeri arno, ac yn ei daro ar ei ben dro ar ôl tro gyda gwialen. |  | |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Pan oedden nhw wedi blino cael sbort, dyma nhw'n tynnu'r clogyn porffor oddi arno a'i wisgo yn ei ddillad ei hun unwaith eto. Yna dyma nhw i gyd yn codi a mynd ag e at Peilat. Dwedodd Peilat, "Dydy e ddim wedi gwneud unrhyw beth i haeddu marw. Dw i'n dod ag e allan eto, i chi wybod fy mod i ddim yn ei gael e'n euog o unrhyw drosedd.” |  |
| 5 | Ond roedd y prif offeiriaid a'r dyrfa yn gweiddi drosodd a throsodd, “Croeshoelia fe! Croeshoelia fe!” |  |
| 6 | Roedd Peilat eisiau gollwng Iesu'n rhydd. Dwedodd, "Lle dw i'n y cwestiwn, mae e'n ddieuog.” Ond, “Cesar ydy'n hunig frenin ni!” oedd ateb y prif offeiriaid. Yn y diwedd dyma Peilat yn gadael iddyn nhw gael eu ffordd, ac yn rhoi Iesu i'w groeshoelio. |  |
| 7 | Felly aeth y milwyr ag Iesu i ffwrdd. Aeth allan, yn cario ei groes. |  |
| 8 | Roedd dau droseddwr arall yn cael eu croehoelio hefyd. |  |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | Roedd yn rhaid iddyn nhw gerdded allan o'r ddinas. |  |
| 10 | Roedd tyrfa fawr yn gwylio. |  |
| 11 | Roedd Iesu'n wan ar ôl cael ei guro a'i chwipio. |  |
| 12 | Roedd dyn o Cyrene o'r enw Simon yn digwydd mynd heibio — roedd ar ei ffordd i mewn i'r ddinas.... |  |
| 13 | ...a dyma'r milwyr yn ei orfodi i gario croes Iesu i Golgotha (sef ‘Lle y Benglog’). |  |

| | | |
|---|---|---|
| 14 | Cafodd dau leidr eu croeshoelio yr un pryd, un bob ochr iddo. |  |
| 15 | Naw o'r gloch y bore oedd hi pan wnaethon nhw ei groeshoelio. |  |
| 16 | Roedd arwydd uwch ei ben yn dweud beth oedd y cyhuddiad yn ei erbyn: DYMA IESU O NASARETH— BRENIN YR IDDEWON. Roedd yr arwydd mewn tair iaith — Hebraeg, Lladin a Groeg. |  |
| 17 | Cyfieithwyd gan www.beibl.net | Free Bible images THE WORD IN PICTURES www.freebibleimages.org |
| 18 | |  |